
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Symud o Wasanaethau Gofal Iechyd Plant i Wasanaethau Gofal Iechyd Oedolion

Dyma ddogfen **Hawdd ei Deall** gan Lywodraeth Cymru



© Hawlfraint y Goron 2020
WG40206

# Beth yw Pontio a Throsglwyddo?

## Y mater dan sylw

**Pontio a Throsglwyddo** yw pan fydd person ifanc yn symud o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod Byrddau Iechyd yn cefnogi unigolion wrth iddynt symud i ddefnyddio gwasanaethau oedolion.

Rydyn ni'n gwybod ei bod yn gallu bod yn anodd symud at dîm o arbenigwyr newydd a gwasanaethau newydd.

## Beth yw hwn?

Rydyn ni wedi ysgrifennu canllawiau i Fyrddau Iechyd yng Nghymru eu dilyn.

Rydyn ni angen gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd i roi'r gofal yr wyt ti ei angen.

Rydyn ni eisiau gwybod beth wyt ti'n ei feddwl o'r canllawiau.

## Pryd fydd y cyfnod Pontio a Throsglwyddo yn dechrau?

Mae pob person ifanc yn wahanol. Mae pob un yn tyfu i fyny mewn ffyrdd gwahanol.

Gall yr amser iawn i ti symud fod yn wahanol i'r amser iawn i rywun arall symud.

Rydyn ni eisiau i Fyrddau Iechyd ddechrau cynllunio yn gynnar.

Rydyn ni eisiau i Fyrddau Iechyd dy gefnogi i wneud yn siŵr bod hyn yn cael ei wneud ar yr adeg iawn i ti.

## Arweinydd Pontio a Throsglwyddo

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod un person yn y Byrddau Iechyd a fydd yn gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn cael y cymorth y maent ei angen.

Y person yma fydd yr arweinydd Pontio a Throsglwyddo.

Eu gwaith nhw yw gwneud yn siŵr bod yr holl wasanaethau gofal iechyd yn eu hardal yn gwneud y pethau canlynol:

1. yn gwybod am y canllawiau hyn ac yn eu dilyn
2. yn cefnogi pobl ifanc sy’n symud i wasanaethau oedolion
3. yn rhoi gwybodaeth i bobl ifanc ac yn eu cynnwys nhw mewn penderfyniadau
4. yn rhoi gofal a chymorth o ansawdd i bobl ifanc heb unrhyw fylchau.

## Yr egwyddorion

Rydyn ni wedi datblygu’r **egwyddorion** hyn fel y gall bobl ifanc gael y gofal a’r cymorth gorau sydd ar gael, lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

Mae’n rhaid i wasanaethau gofal iechyd fedru:

- Gwrando ar bobl ifanc.

- Canolbwyntio ar fynediad cynnar a hawdd at ofal a chymorth.
- Gweithio gyda gwasanaethau eraill.
- Rhoi'r holl wybodaeth iti yr wyt ti ei hangen i wneud penderfyniadau.
- Rhoi adborth iti.

**Egwyddorion** yw'r safonau y mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd eu dilyn wrth weithio gyda thi.

## Sut fydd hyn yn digwydd?



Pan fyddi di'n barod, bydd pobl yn dechrau siarad gyda thi am beth rwyt ti eisiau ei wneud.

Gall y gwaith o gynllunio'r trosglwyddiad i'r gwasanaethau oedolion ddechrau pan fyddi di'n 13 neu'n 14 oed.

Dylai pawb ar y rhestr hon gael eu cynnwys:

- ti
- dy deulu
- dy feddyg lleol
- dy dîm gofal iechyd
- gwasanaethau eraill fel y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau addysg.



Dylai dy Fwrdd Iechyd sicrhau:

- eu bod yn diwallu dy anghenion gofal iechyd
- eu bod yn deall beth wyt ti a dy deulu ei eisiau
- eu bod yn gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau plant a'r gwasanaethau oedolion yn cydweithio

- os wyt ti eisiau symud i'r gwasanaethau oedolion yn gynt, ond ddim yn cael, mae'n rhaid iddyn nhw roi'r rhesymau dros hyn.

## Gweithiwr Penodol



Bydd dy weithiwr penodol yn dy gefnogi ac yn dy helpu:

1. i drefnu dy gynlluniau gofal iechyd

2. i ddweud dy ddweud gyda phenderfyniadau



3. i symud i'r gwasanaethau oedolion.

Gall dy weithiwr penodol fod yn:

- nyrs



- gweithiwr iechyd proffesiynol yr wyt ti'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddo

- dy feddyg



- **eiriolwr** iechyd.

**Eiriolwr** yw person a all dy helpu i symud a gwneud yn siŵr bod pobl yn gwrando arnat ti.

## Y Cynllun Pontio



Bydd dy weithiwr penodol yn dy helpu i ysgrifennu cynllun pontio.

Bydd **cynllun pontio** yn dy helpu i ddweud pethau pwysig amdanat ti dy hun wrth bobl eraill.

Bydd y cynllun pontio yn sôn:

- amdanat ti yn tyfu i fyny




- am dy iechyd
- am sut rwyt ti'n cyfathrebu
- am y pethau rwyt ti'n eu hoffi a'r pethau nad wyt ti'n eu hoffi

- am pa gymorth fyddi di ei angen i edrych ar ôl dy hun.

Gall pobl eraill ddod i'r cyfarfod i dy helpu di i'w ysgrifennu hefyd.

Bydd dy gynllun pontio yn helpu i wneud yn siŵr bod y newidiadau yn digwydd yn ddiffwdan a bydd yn dweud beth yw rôl pawb sy'n gweithio gyda thi.

## Cyn dy ben-blwydd yn 16 oed

Mae'n rhaid i dy weithiwr penodol dy gyfarfod i wneud yn siŵr:

- Dy fod ti wedi cael dy gynnwys ac yn gwybod beth yw'r camau nesaf.
- Bod dy anghenion yn cael eu diwallu.
- Bod penderfyniadau am dy ofal yn dy roi di yn gyntaf.

Pan fydd y Cynllun wedi'i gytuno, ti fydd yn ei gadw.

Bydd copi hefyd yn cael ei gadw ar dy gofnodion meddygol.

## Os yw dy driniaeth yn dechrau pan wyt ti’n 16 neu’n 17 oed

Gall y gwasanaethau plant neu’r gwasanaethau oedolion edrych ar dy ôl di.

Y meddyg neu’r gweithiwr proffesiynol sy’n gyfrifol am dy ofal nes bydd y cynllun yn ei le.

Mae’n rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod gen ti’r holl wybodaeth yr wyt ei hangen i wneud penderfyniadau.

Mae’n rhaid i bawb weithio gyda’i gilydd i wneud yn siŵr dy fod ti’n cael y cymorth gorau.

## Gorffen trosglwyddo i’r gwasanaethau oedolion

Bydd dy weithiwr penodol yn aros gyda thi nes y byddi wedi gorffen trosglwyddo i’r gwasanaethau oedolion.

Efallai y bydd yn mynd gyda thi at y tîm meddygol newydd neu i ymweld â chanolfannau newydd.

Bydd yn gwneud yn siŵr dy fod ti a dy deulu wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol.

Fe fyddi di'n aros gyda'r gwasanaethau plant nes bydd y trosglwyddiad wedi'i gwblhau.

Pan fydd y trosglwyddiad wedi'i gwblhau fe fyddi di a dy feddyg yn cael llythyr. Bydd y llythyr yn esbonio'r manylion am dy drosglwyddiad.

## Rydyn ni eisiau cael dy farn

**Ydy'r canllawiau hyn yn glir?**

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐ Ddim yn gwybod ☐

Fedri di ddweud wrthym pam?

**A oes unrhyw beth arall y mae angen inni feddwl amdano?**

Oes ☐ Nac oes ☐ Ddim yn gwybod ☐

Fedri di ddweud wrthym pam?

**Anfona dy ymateb i:**

ChildrensHealth@llyw.cymru
Iechyd Plant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CF10 3NQ

**Erbyn: 20 Ebrill 2020**